
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

## Dysgu o'r Gorffennol i Wneud y Dyfodol yn Fwy Diogel

## BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost i: SUSRWales@llyw.cymru




### CEFNDIR

Creu un broses adolygu lle mae angen dull aml-asiantaeth, gan ymgorffori'r prosesau adolygu canlynol Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Lladdiadau Trais Domestig; Adolygiad o Laddiadau'n ymwneud â Iechyd Meddwl; Adolygiad o Laddiadau gydag Arfau Ymosodol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i lywio ymarfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

### CYNNYDD HYD YN HYN

- Mae'r cwmni cyfreithiol Geldards LLP wedi'u comisiynu i nodi sail gyfreithiol newydd i alluogi rhannu gwybodaeth yn well rhwng sefydliadau at ddibenion cynnal ADUS.  Nod hwn yw mynd i'r afael â'r rhwystrau presennol a nodwyd, yn enwedig mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth cleifion gan bartneriaid iechyd.
- Mae grwpiau ffocws ymgynghori ADUS wyneb yn wyneb bellach wedi'u cynnal. Diolch i'r rhai ohonoch a fynychodd sesiwn ac am roi eich adborth i dîm ADUS. Os hoffech ymuno â'r grŵp ffocws ar-lein, cofrestrwch drwy'r ddolen ganlynol: https://www.eventbrite.co.uk/e/603534587197

### Y CAMAU NESAF

- Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, bydd yr holl ymatebion yn cael eu dadansoddi, a bydd newidiadau perthnasol yn cael eu gwneud i'r canllawiau statudol o ganlyniad.
- Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn datblygu dangosfwrdd a fydd yn dal dogfennau byw fel y Rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy, y Cynllun Gweithredu a'r monitor argymhellion a'r rhestr o'r holl adolygiadau parhaus yng Nghymru.

### HWB CYDGYSYLLTU ADUS DIWEDDARIAD

- Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn gwneud darn o waith i ganfod faint o adolygiadau parhaus sydd yng Nghymru. Bydd y gronfa ddata hon yn parhau i gael ei diweddaru a bydd ymarferwyr yn gallu cael mynediad at y ddogfen.

### GRŴP CYFEIRIO RHANDDEILIAID a GRŴP CYFEIRIO DIODDEFWYR A THEULUOEDD

- Os hoffech chi gymryd rhan o hyd gyda'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid neu'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd i gyfrannu at weithredu'r broses ADUS, yna cysylltwch â ni. Gwahoddwch unrhyw un o'ch cydweithwyr a allai gynorthwyo gyda gwaith y grŵp hwn.

### DIWEDDARIAD AR YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Cyflwynodd tîm YDdC arddangosiad o'r ystorfa yn lansiad y Sefydliad Arloesedd, Diogelwch, Troseddu a Chudd-wybodaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Mynychwyd yr arddangosiad gan randdeiliaid o ystod eang o asiantaethau a sefydliadau.

### YMGYNGHORIAD FFURFIOL ADUS

- Mae ymgynghoriad ffurfiol Llywodraeth Cymru yn fyw tan 9 Mehefin 2023. Defnyddiwch y ddolen ganlynol i weld y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb: https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-unigol-aduu .
- Mae grwpiau ffocws a sesiynau ymgynghori wedi'u cyflwyno i lawer o wahanol grwpiau a byrddau ledled Cymru. Cysylltwch â ni os hoffech i ni fynychu digwyddiad yn eich ardal neu drwy Teams ar gyfer grŵp sydd eisoes yn bodoli.

**This document is also available in English**